

**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 17eg Hydref 2018 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

## **YN BRESENNOL**

Y Cyngorydd Mrs W. M. Mullen-James (Maer)

Y Cynghorwyr Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts ac R. J. Turner.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

### **68. DECHRAU'R CYFARFOD A CHYHOEDDIADAU**

Cychwynnodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

Safodd y cyfarfod mewn tawelwch i gofio am ŵr y Cyngorydd Mrs J. Chamberlain-Jones, Mr Alan Chamberlain-Jones, a oedd wedi marw'n sydyn ar y penwythnos.

Llongyfarchodd yr aelodau y Parchedig Grimwood ar ei ddyrchafiad yn ddiweddar yn Archddiacon Llanelwy.

### **69. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, A. J. Rutherford, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

### **70. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 19eg Medi 2018 - Rhifau Cofnod 53-67

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cyngorydd A. R. James a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 19eg Medi 2018 - Rhifau Cofnod 20-22

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cyngorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 3ydd Hydref 2018 - Rhifau Cofnod 23-26

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cyngorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 3ydd Hydref 2018 - Rhifau Cofnod 49-65

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

Mewn perthynas â chofnod rhif 64 (Ailwampio Llochesi Bws Cyngor Tref y Rhyl), adroddodd aelod iddo dderbyn nifer o gwynion am yr arwyddion electronig yn yr orsaf fysus nad oddynt yn gweithio.

Dywedodd aelod arall bod yr amserlenni yn yr orsaf fysus yn hen.

Cymerodd Clerc y Dref y cyfle i adrodd bod ei drafodaethau yn ddiweddar gyda Chyngor Sir Ddinbych ynglŷn â'r un cynnig cyllido 50/50 yn cael ei ymestyn i'r chwe lloches arall, wedi bod yn llwyddiannus.

**71. ADRODDIAD Y MAER**

Nododd y Maer yr amrywiol ddigwyddiadau y bu iddi eu mynychu dros y mis diwethaf, a soniodd am y Triathlon Elusennol Rhyng-ysgolion a dadorchuddio 'Joey' y Ceffyl Rhyfel yn benodol.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.

**72. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B (byddai rhestr o daliadau anrheolaidd yn cael ei rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'w ychwanegu i'r rhestr o gyflenwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r canlynol i gael eu talu a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.

Cyflenwr	Manylion Cyflenwi	Rhif Talenb	Dyddiad	Swm £
Gunsmoke Communications	Costau hysbysebu Facebook ar gyfer Rhyl Wylt	598	26/9/18	34.16
WPS Insurance	Premiwm uwch ar ôl ailbriso Canolfaan Gymunedol Tynewydd	599	28/9/18	11.20
<b>Cyfanswm Atodlen B</b>				<b>£45.36</b>

**73. PERFFORMIAD BUDDSODDI 2018/19: CHWARTER 2**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddisbarthwyd gyda'r rhaglen) yn nodi bod buddsoddiadau'r Cyngor Tref wedi ennill £343.33 rhwng 1af Gorffennaf a 30ain Medi 2018.

**PENDEFYNWYD** derbyn yr adroddiad.

**74. PANEL ANNIBYNNOL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYMRU – CYNIGION DRAFFT**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar y cynigion drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, a dywedodd mai'r unig effaith arwyddocaol i'r Cyngor Tref fyddai'r newidiadau yn y lwfans dinesig.

Roedd y cynigion yn benodol o ran beth ddylid a beth na ddylid ei dalu allan o'r lwfans.

**PENDERFYNWYD** cyfeirio'r cynigion i'r Is-bwyllgor Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol i'w hystyried yn llawn.

**75. EITEM GAN AELOD: 'RHYL DDI-BLASTIG'**

Diweddarodd y Cynghorydd K. R. Jones yr aelodau ar gynnydd y fenter a'u gwahodd i ddigwyddiad cymdeithasol yn y caffi Pro Kite Surfing o 7pm ymlaen ar 26ain Hydref.

**76. EITEMAU ER GWYBODAETH: 'JOEY Y CEFFYL RHYFEL'**

Dyweddodd y Cynghorydd P. Prendergast bod 'Joey' nawr yn mynd i ysgolion y Rhyl i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â gwasanaeth dros filiwn o geffylau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a gofynnodd i'r aelodau gysylltu gydag ef neu Mr Richard Kendrick i drefnu ymweliadau pellach ag ysgolion.

**77. HOLI AC ATEB**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**78. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

**79. CONTRACT DIGWYDDIADAU A CHYHOEDDUSRWYDD 2019/20**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn nodi'r dull a'r amserlen arfaethedig ar gyfer gwahodd pedwar cwmni lleol i gynnig pris ar gyfer contract 2019/20, yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor Tref.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r dogfennau a'r amserlen a gynigiwyd.

**80. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:.....

Dyddiad: .....